Cyfres yr 20fed Ganrif

RHYDDID GWIRIONEDD CARIAD.

# Yr Ymofynydd

Cyf. 17. Rhif 9.] MEDI, 1917. [Pris 2c.

## CYNNWYSIAD.

Car Dy Gymydog. T. R. Jones, Towyn.

Dynion Da yn Uffern. Parch. D. Cellan Evans.

Mynd i'r Cwrdd.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Deigryn Hiraeth.

Priodas.

Marwgofion.

Manion ac Hanesion.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

# YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

**Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr. Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.**


## TALIADAU.

D.D., Gwardafolog; Mrs. W.J.D., Lampeter; J.J.W., Trebanos


# Mourning Cards . . .

**Neatly executed.**

**A Speciality in Portrait Printing.**

Samples sent on application.

**J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.**


# CYFRES Y FIL.

*Yn cynnwys y cyfrolau canlynol:—*

| | |
|---|---|
| **MYNYDDOG** . . . . . | **CERRIG Y RHYD** . . . |
| **SION CENT** . . . . . | **GWAITH GLANYGORS** . |
| **GWILYM MARLES** . . | **ROBERT OWEN** . . . . |
| **ALUN** . . . . . | **GWAITH ANN GRIFFITHS.** |

**Pris Swllt. Trwy y Post 1/2.**

I'W CAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

# YR YMOFYNYDD.

**Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.**

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1917. [CYF. XVII. RHIF 9.

## CAR DY GYMYDOG.

NID oes un wlad yn fwy effro i helbul Ewrop, yn ei achosion a'i effeithiau, na'r America. Enghraifft gref o'r diddordeb dwys hwn yw'r gyfrol *Love for the Battle-torn Peoples*, gan y Parch. Jenkin Lloyd Jones, Ll.D., Chicago. Fel mae'n wybyddus i ddarllenwyr Yr YMOFYNYDD Cymro o waed ac o dafod yw'r gwr galluog hwn, ond yn Americanwr pybyr, ac wedi gwasanaethu'r wlad honno dros dymor maith, yn gyntaf fel milwr ac wedi hynny fel cennad hedd. Cyflawna wasanaeth pwysig fel llenor, oblegid golyga'r *Unity* —cyhoeddiad wythnosol a'i bwrpas i feithrin Undeb rhyng-genedlaethol, Dinasyddiaeth bur, Llenyddiaeth dda, gyda rhyddid a chymdeithas a chymeriad crefyddol. Ail-gyhoeddwyd llawer o'r ysgrifau hynny yn llyfrau a phamffledau, a lledaenwyd hwy yn helaeth dros wlad fawr y Gorllewin. Perthyn yr awdur i ysgol ryddfrydol, eto hawlir mai er "atgyfnerthiad ffydd" y traddodwyd y gyfres hon, ac y cyhoeddir hi eto yr ail waith; a chyflwynir y gyfrol i bawb sydd yn credu fod y Rheol Euraidd yn ymarferol rhwng cenhedloedd fel rhwng unigolion, ac y dug Ewyllys Da rhwng dynion Dangnefedd ar y ddaear. Angenrheidiol iawn i fywyd crefyddol y genhedlaeth bresennol yw'r ystyriaethau hyn, a'r mynegiad ohonynt, nid yn unig fel pethau delfrydol, ac iddynt ddylanwad da delfrydau, eithr fel egwyddorion y gellir eu gweithredu bob amser yn y byd hwn. Gwna hyn y gyfrol yn ddiddorol—fel y mae gwirionedd cyflawn, beiddgar, digyfaddawd, yn ddiddorol a rhamantus. Clywir yma yr acen broffwydol, na'r hon nid oes miwsig pereiddiach i glust yr eglwys beth bynnag fo'i hystad. Amheuthun odiaeth yw llydanrwydd teimlad y penodau: dyma ysgrifennydd sy'n ddigon o wladgarwr a chenedlgarwr i garu pawb o bob cenedl ac ymhob gwlad. Cymer bawb yn gymydog iddo, i'w caru ganddo fel ef ei hun. Os temtiwyd ef i ofyn rywbryd, "A phwy yw fy nghymydog?" fe'i dysgwyd i ateb, "Yr un a chymydog yr Iesu." Gŵyr efe fod *pobl* y gwledydd yn llawer nes i'w gilydd nag yw'r penaethiaid milwrol a'r llywodraethwyr gosodedig. *Brodyr* yw'r bobl, o ran teimlad, hyd

fesur mawr: yr arweinwyr sy'n *clynion.* Ac eto hwy sydd bellaf o gyrraedd y fagnel, a diogelaf eu lloches.

Testyn y bennod gyntaf yma yw'r *Oen a'r Llew;* ac yn hon gosodir y seiliau i lawr—rhai cedyrn, ac wedi eu saernio i'w lle yn gymhesur a disigl. Saif y llew yn arwyddlun o rym, a'r oen yn arwyddlun o gariad; a'r neges yma yw dangos mai'r oen a orchfyga'n derfynnol ymhob brwydr, er i'r llew efallai drechu dros amser. Enghreifftir hyn oddiwrth Fywydeg a Llysieueg: lleiha bwystfilod y maes yn ol cynnydd gwareiddiad, darfyddant yn llwyr pan y troir gweddill yr anialwch yn dir llafur; daw'r ddaear i dyfu glaswellt maethlon a choed defnyddiol a hardd yn lle drain a mieri ac ysgall, mewn cyfnod mesuradwy o amser. Yn gyffelyb, bu crefyddau casineb dros ennyd yn boblogaidd, ond tynghedwyd y duwiau Moloch, a Thor, a Mars, i ddifodiant. Crefyddau cenhadol a orfuant: rhai yn ceisio dynion i'w lleshau, ac i'w dwyn i adnabyddiaeth o'r gwir a'r bywiol Dduw. Y dyn an-arfog yw'r dyn diogelaf; ac arwydd o lwfrdra ac anghrefydd yw'r ymarfogi cyffredinol sy'n cymryd lle—dan esgus o ladd milteriaeth âg ef ei hun, ac o heddychu trwy ryfela! Llofruddiaeth yw llofruddiaeth, pa fodd bynnag yr enwir ef. Ac er y dichon y bydd galw am ferthyrdod cenedl, fe gyfyd yr un gyfiawn drachefn, er ei marwolaethu yn y cnawd hi a fywheir yn yr ysbryd. Cyflafareddiad yw'r "gair a fydd" mewn amgylchiadau rhyng-wladol a rhyng-genedlaethol; a llywodraethir y byd yn y dyfodol gan y cyflafareddwr, yn hytrach na chan y milwr. Gadewir ar ol y rhai sydd dda ganddynt ryfel. Nid "da" gan y cyfryw na Duw na dyn. Byrhoedlog yw concwestau maes y rhyfel: y buddugoliaethau tragwyddol yw'r rhai a enillir trwy gariad. Heddyw aros yr ydym ar y ddisgwylfa am ddewrder a doethineb y cyflafareddwr, a ddatblyga frawdgarwch rhyng-genedlaethol, ac a apelia at gyfiawnder, rheswm a chariad.

Yn dilyn y bennod ragarweiniol hon ceir chwe phennod ar y Paham y câr yr ysgrifennydd amrywiol wledydd sy'n awr yn brwydro a'u gilydd, sef Lloegr, Germani, Ffrainc, Itali, Rwsia, a Thwrci. Caiff ei resymau yn hanes pobl y gwledydd ac yn nodweddion eu cymeriad. Er enghraifft, câr Loegr ar gyfrif Stonehenge a'i gylch-oedd derwyddol, ac am ei bod yn gartref y brenin Arthur, ac yn grud rhyddid. Anwylir hi, hefyd, oblegid y lle yn ei hanes sydd i Syr Thomas Moore, John Ball, John Ruskin, Thomas Carlyle, James Keir Hardie, Wilberforce, George Fox, William Penn, John Bright, John Howard, Florence Nightingale, ynghyda'i llu merthyri, ie, ei "hereticiaid," ei lleisiau proffwydol, ei hadeiladau, a'i thrysorau celfyddydol. Eithr câr Germani am gyfres o resymau cyffelyb. Yn arbennig am y tri chawr a fagodd hi i'r byd, sef Luther, Kant, a Goethe. Enwau cyfareddol yw'r tri hyn, pob un yn ei gylch ei hun; a pherthynant bellach, nid i wlad eithr i'r byd cyfan. Ychwanegir atynt Lessing, i'r hwn y priodolir y dywediad cofiadwy, "Pe cynygiai Tad pawb i mi wirionedd yn ei law ddeheu, ac yn ei law aswy yr ymchwil am wirionedd a chariad tuag ato, fe ymgrymwn yn isel

gerbron yr aswy law, ac a ddywedwn, O Dad, i Ti yn unig y perthyn gwirionedd; dyro i minnau allu anherfynnol i chwilio am y gwirionedd." Enwir wedyn rai eraill o ysgolheigion y wlad, sef, Bunsen a Schleiermacher, gyda rhestr faith o gerddorion digymar, sef Beethoven, Mendelssohn, Handel, Bach, Mozart, Schubert, Brahms, a Wagner. Wrth fawrygu Germani Fu nid esgusoda Germani Sydd am ei chreulonderau a'i barbareiddiwch gwarthnodol; ond datgan ei gred mai dros dymor, ac mewn ysbryd gorffwyllog, y tansuddodd y wlad yn y môr hwn o laid, ac y prawf Germani Fydd ei hun yn deilwng o draddodiadau goreu'r wlad. Câr yntau hi am y daw eto, a hynny'n fuan fel y tybia, yn wir gymdoges i Ffrainc, yn gyfnither gyntaf i Loegr, ac yn gyd-etifedd â Rwsia i drysorau pennaf Ewrop. Ni fedr anghofio mai wrth allor Goethe y cyneuodd Carlyle ei lusern, a bod Emerson o'r un gyfrinach. Dyma hefyd, gartref Sosialaeth.

O dramwy'r llwybr hwn, a cheisio rhoi cyfrif hanesyddol am y serch sydd ynddo at y naill wlad ar ol y llall, o bob ochr yn y drin bresennol, ymgywreiniem ymlaen llaw i wybod pa beth da a welsai yn hanes Twrci a'i Swltan bondigrybwyll. Clywsom hen bregethwr yr oes o'r blaen—Edward Williams, Caemawr—yn gweddio'n gyhoeddus am i Dduw ddamnio'r Swltan; gan farnu'n ddiau fod hwnnw wedi cyflawni y pechod nas gellir ei faddeu yn y byd hwn nac yn y byd a ddaw. Creulonderau annirnadwy Armenia a gyffroasai ysbryd yr hen efengylwr selog a seinber. Nid yw eiddigedd yr oes ddysgedicach hon mor fflamllyd a hynny, os yw mor eirias, ac ni ddywedem Amen hyglyw wrth y deisyfiad hyd yn oed pan yn feddw gan win myrllyd militariaeth. Eithr anodd fyddai casglu ynghyd amddiffynwyr i'r Swltan yng Ngwalia, a hyderir yn bur gyffredinol mai un canlyniad i'r rhyferthwy presennol fydd diwreiddio'r pren hwn a'i daflu allan dros y gwrych o ardd Ewrop—fel diffrwythwr y tir. Ond apelia Ymherodraeth Twrci at Mr. Lloyd Jones, o leiaf yn ddaearyddol ac yn hanesyddol. Nid cyfystyr maintioli a mawredd; ond ymestynna'r Ymherodraeth Dyrcaidd i dri chyfandir; tâl Ewrop, Asia, ac Affrica, deyrnged i Gaer Cystenyn. Twrci hefyd yw asgwrn cefn Mahometaniaeth—crefydd fawr ieuengaf y byd; a nodir yma bethau da'r grefydd honno—pethau benthyg oddiwrth Gristnogaeth, gan mwyaf. Tybir fod ymgais at feithrin brawdgarwch at y Cristnogion yn y genhedlaeth hon o Fahometaniaid, ac y dichon mai yn eu tiriogaeth hwy yr ymgyferfydd "Senedd y Crefyddau" y tro nesaf. Tystiolaethir gan dyst profiadol fod y Tyrciaid yn bobl foesgar, dyner, a charedig. Danghosir hefyd eu bod yn ddiwyd ac yn fedrus mewn llawer cyfeiriad, ac yr allforiant i'r Unol Daleithiau werth miliynau o ddoleri'n flynyddol mewn carpedi, myglys, cotwm, siwgr a phethau eraill. Ac yn hytrach na'u lladd, nac ychwaith eu hesgymuno, mynnir i ni geisio byw gyda hwy, ymfrawdoli tuag atynt, a'u dyrchafu ar lanw cynhyddol athroniaeth a chrefydd.

Uwchlaw yr holl genhedloedd fe saif dynoliaeth; a pherthyn i honno ei hiaith, ddealledig gan galon ei holl aelodau. Ymdrech i'w hyngan, ac i gael eraill i'w siarad, yw carictor y gyfrol hon. Gwel

yr awdur mai dyma gyfle yr America—y wlad yr hufenwyd yr holl genhedloedd diweddar i wneud ei gweriniaeth yn bosibl, a Thaleithiau a fu yn y tawdd-lestr, a thrwy dân difaol a phureiddiol rhyfel, nes dod yn *Unol* Daleithiau. Y sawl na charo ond un wlad, ni châr honno ychwaith yn bur ac iawn; ac nid yw yr hyn a elwir yn llac yn "wladgarwch" ond rhinwedd yr enaid cul—heb gytuno a Doctor Johnson mai dinas noddfa cnafiaid ydyw! Gwir fawrhydi cenedl yw uniondeb ei dinasyddion, anrhydedd ei sefydliadau, a dealltwriaeth ei phleidleiswyr. A'r amddiffyniad cadarnaf i wlad yw meddwl gonest a gwirionedd syml. Dyma gyfle yr Unol Daleithiau i ddangos ei bod wedi etifeddu goreu'r mamwledydd, ac wedi cael ei ffurfio yn fodaeth *ysbrydol* ei hunan. A thrwy fanteisio ar y cyfle y byddai yn iawn-ddefnyddio ei chynysgaeth.

Ac er pybyred ei Americaniaeth yn sylwadau y penodau olaf hyn, y mae'r dyn yn yr awdur yn fwy na'r Americanwr—yr hyn a rydd hawl rinweddol iddo i bwysleisio'r pethau a una y cenhedloedd, yn hytrach na chyhwfanu'r hyn a'u gwahana ac a'u gyr i wersylloedd gelynol. Plê dros Frawdoliaeth Ddynol a Rhyngwladwriaeth yw ei gynnyrch hwn, wedi ei eneinio gan gariad.

*Towyn.* T. R. JONES (*Clwydydd*).

## DYNION DA YN UFFERN.

Diau y bydd pennawd ein hysgrif yn debyg o greu ofn a braw ym meddyliau rhai o'n darllenwyr, wrth feddwl fod neb mor rhyfygus ag awgrymu fod "Dynion da yn Uffern." Ar yr olwg gyntaf gall y fath syniad ein arswydo, am ein bod erioed wedi arfer meddwl yn hollol i'r gwrthwyneb i hyn. Os y dilynir ni hyd y diwedd, ac os y myfyriwn uwchben y pwngc, aiff yr arswyd heibio, pan y caiff y gwirionedd ei le priodol yn ein meddyliau.

Beth feddylir ynte, wrth bennawd ein hysgrif? Beth ydyw'r syniadau traddodiadol ydym wedi ddal am Nefoedd ac Uffern? Lle ydyw'r Nefoedd, ac nid oes yno ond pobl dda; lle ydyw Uffern, ac nid oes yno ond pobl ddrwg.

Yn y nefoedd mae gwynfyd diderfyn, gorffwysdra a heddwch. Nid oes yno angen am weinidogaethau tyner tosturi; nid oes eisiau cydymdeimlad, lle nad oes dioddefaint; nid oes yno gyfle i ddefnyddioldeb o un math. Rhyw berffeithrwydd marw tebyg i eiddo y *crystal* prydferth sydd yno.

Yr oedd Jonathan Edwards yn awyddus iawn am ychwanegu at swynion atyniadol y nefoedd, a dywedai, "Caiff y colledigion eu poenydio yn mhresennoldeb yr angelion, ac yn mhresennoldeb yr Oen a'i seintiau. Gwna hyn i'r seintiau deimlo yn fwy ogoniant eu hachubiaeth. Bydd i drueni y damnedigion ddyblu ynni eu moliant." Yn uffern y mae poenydio di-ddiwedd,

ysgrechiadau calon-rwygol o ing, ocheneidiau trymion o ddioddefaint. Yr oedd Mr. Spurgeon, debygem, yn gwybod y cyfan am y lle, a dywed, "Y mae yna dân *gwirioneddol* yn uffern; yr un fath yn union a'r un sydd gennym ar y ddaear, ond ei fod yn llosgi heb ddifa. Bydd Duw yn parotoi y corff dynol yn y fath fodd fel y deil i losgi yn dragywyddol, heb gael ei lwyr ddifa." Dyna'r syniadau traddodiadol am Nefoedd ac Uffern. Pa un o'r ddau le ddewisai'r dyn da? A ellwch betruso? Beth maent yn ddewis yma ar y ddaear? A ydynt yn gofyn am hawddfyd a phleser yma? A ydynt yn mynd i'r fan lle na chlywant gri dolefus y rhai sydd yn dioddef yn disgyn ar eu clustiau? A ydynt yn cau eu llygaid ar drueni dyn? 'Choeliai fawr. Nid oes un o anghenion dyn yn galw arnynt yn ofer. Nid ydynt yn fyddar i'r un llef o ing; nac yn ddall i'r un olygfa o drueni.

Gwelwn ddegau ohonynt heddyw yn gadael Nefoedd fechan y ddaear, ac yn rhuthro i ganol yr uffernau sydd oddiamgylch iddynt. Meddylier am ein meddygon a'n mamaethau, a'r lluoedd sydd yn gweithio dan arwydd y Groes Goch, ac yn yr R.A.M.C., i geisio lliniaru ychydig ar glwyfau hyll dynoliaeth heddyw. Gall ofn yrru dyn i dderbyn nefoedd, ond y mae cariad yn gyrru dynion i waelodion uffern.

### Beth wnaethai Iesu ei hunan?

Wrth swn cri cyntaf angen dynol, neidiai dros ganllawiau'r nefoedd i ganol uffern. Dyna'r fath un oedd yn Mhalestina gynt. Ni ofynnodd am le tawel lle y gallasai gysgu mewn hedd. "Y mae gan y llwynogod ffauau, a chan adar y nefoedd nythod, ond gan Fab y Dyn nid oes ganddo le i roddi ei ben i lawr." Ni chwiliodd allan am balasdy a pharc. Nid oedd yn hidio fawr am gael ei hunan yng nghwmni y rhai *respectable* mewn cymdeithas yn ei amser. Aeth at "bublicanod a phechaduriaid," a bwytaodd ac yfodd gyda hwynt, a charodd hwynt. Nis gallwn ddychmygu iddo gyfnewid pan y diflannodd "tu hwnt i'r llen." Nis medrwn gredu y byddai yn ddedwydd ymhlith seintiau yn unig. Gwrandawn ar eiriau tarawiadol Lee-Hamilton—

Oddiar ganllawiau'r nefoedd
Angel waeddai, "O fy Nuw
Ar y pelmynt aur, tragywyddol,
Mae fy nghalon oll yn friw,
Er fod Purdeb dan ei choron
Yn dysgleirio'n hardd ei gwedd;
Eto, oer fel eira ydyw,
I'm dyhead mae yn fedd.
Nid oes yma gri na dagrau,
Dall na byddar, cloff na chlaf
Yn fy ngalw'i roi cynorthwy
Mewn un gongl, O! fy Naf,
Nid oes yma anghyfiawnder
I ymfrwydro'n ddewr ag ef;
Gaf fi 'hedeg tua'r ddaear—
Byw yn ddyn o dan y nef."
"Ac os felly," Duw atebai
"Llwyr-ddifodiant iti fydd."
"Boddlon ydwyf," meddai'r angel
"Ond i mi gael mynd yn rhydd.
Y mae dagrau heillt y ddaear
Imi'n werth tragywyddol nos."
Yna Duw ddywedodd wrtho
"Os yw felly—cyfod—dôs."
Ar y trothwy oedodd ennyd
Cyn ymledu'i edyn glân;
Yna llamodd o'r Goleuni
Tua'r ddaear lwyd ei grân.

Unrhyw ddyn fyddai yn foddlawn pwrcàsu iachawdwriaeth fyddai yn golygu gwynfyd tragywyddol iddo ef, a damnedigaeth dragywyddol i'w gymydog, sydd wedi suddo mor ddwfn mewn hunanoldeb fel y cymerai lawer o dân i'w buro. Gymaint ardderchocach oedd ymddygiad Radbod, yr hen ryfelwr paganaidd! Gorchfygodd Siarl y Morthwyl fel yr adwaenir ef, Radbod mewn brwydr, a daliodd ef. Gorchymynodd Siarl, yr hwn oedd yn Gristion, i'r hen ryfelwr gymeryd ei fedyddio. Boddlonodd yntau, ac yr oedd yn barod wedi gosod un droed yn y dwfr pan y gofynodd yn sydyn i'r Esgob Walfran, "Pa le mae fy nghyndeidiau yn bresennol?" "Yn uffern,

gyda'r anghredinwyr," oedd yr ateb. "Felly," meddai Radbod, "y mae'n well gennyf wledda gyda hwy yn mhalasdai Wooden na byw yn y Nef gyda'r Cristionogion newynog." Methwyd cyfnewid ei feddwl trwy dêg nac anhêg.

### Onid dyna Ateb pob Dyn Da?

Oes yna fam fedr fynd i'r Nefoedd a'i phlentyn yn "wylofain a rhingcian dannedd yn uffern?" Na, ei nhefoedd hi ydyw bod yng nghwmni ei phlentyn pa le bynag y mae. Ofn Uffern ydyw'r "gath naw cynffon" y mae pregethwyr wedi ddefnyddio i chwipio dynion i dderbyn *dogmas*. Y mae pob caethwas wedi ei derbyn, ond y mae pob dyn da, pob arwr moesol, wedi gwrthod y fath fargen. Ni wnaeth ofn Uffern un dyn yn dda erioed, nac addasu neb ar gyfer byw mewn ystâd o ddedwyddwch. Ond y mae Cariad yn cynyrchu dynion da, ac yn eu haddasu ar gyfer unrhyw le. Nid oes angen adeiladu Nefoedd i'r dyn sydd a chariad ganddo. Gall adeiladu un ei hunan. Eto, os yw dyn yn hoffi cwmpeini da nid aiff byth i'r nefoedd draddodiadol. Dywedodd rhywun, "Nefoedd am hinsawdd, ond uffern am gwmni." Yn y nefoedd yma y ceir pobl fedrant fod yn hapus pan y mae ereill mewn trueni; pobl ydynt mor ddioglyd fel y gallant fwynhau gwneuthur dim, ac mor foddlongar fel y gallant dreulio bywydau di-amcan. Yma mae'r dyn ddistrywiodd eneth gafodd ei hanfon i golledigaeth am ei phechod. Ond yr oedd ganddo ef ar ddiwedd ei fywyd pechadurus ddigon o anadl i ddweyd, "Yr wyf yn credu." Yma mae'r dyn ystaeniwyd unwaith a gwaed dynol, cyn wynned a'r lili yn awr. Ni chafodd yr hwn syrthiodd yn ysglyfaeth i'w nwydau amser i edifarhau, ac y mae yn uffern; ond yn ystod yr amser hir y bu yn sefyll ei brawf cafodd y llofrudd hamdden i gael iachawdwriaeth, a bu farw, gan faddeu i'w holl elynion, ac yn ymhyfrydu fod ei enaid wedi ei achub. Pwy sydd am fyned i'r fath le?

Ar y llaw arall, meddylier am y rhai sydd wedi cael eu hanfon i'r lle arall. Eu pechod mawr oedd anghrediniaeth. Gallasent fod wedi arwain bywydau pur ac ardderchog; wedi bod yn wŷr a thadau tyner, yn gymdogion da, ac wedi marw, efallai, wrth geisio achub rhyw fywyd. Ond nid oeddent yn credu rhyw ddogma neillduol, ac i golledigaeth yr aethant. Dyna'r cwmni: Socrates, Plato, Confucius, Gautama, Zoroaster, Mahomet, Epictetus, ynghyd a'r holl seintiau paganaidd. Yn y lle yma mae Gwyddonwyr enwog, megis, Darwin, Tyndale, Huxley a Spencer. Yma y mae yr Undodiaid i gyd yn gytun, Channing, Martineau, Longfellow, Emerson, Lowell, Beard, Lindsey, Sarah Flower Adams, awdures yr emyn, "Yn nes fy Nuw i Ti." A hoffech fod yng nghwmni y rhai hyn? Gosodwch hwynt yn Uffern, a gwnant Nefoedd o'r lle.

Clywsom ystori am ddyn yn ymweled ag Uffern, a phan welodd y fath le hyfryd, cafodd ei daraw a syndod, a gofynnodd am eglurhad. Atebwyd ef gan Voltaire, yr archanghrediniwr. "Yr oedd hwn yn lle ofnadwy, ond y mae cymaint o wyddonwyr wedi dod yma fel y maent wedi ei drawsffurfio. Camsyniad oedd anfon gwyddonwyr i Uffern.

Dywedai Father Taylor, os yr aethai Emerson, yr Undodwr, i Uffern y newidiai ef hinsawdd y lle, a pheri i rai ymfudo o'r Nefoedd yno. Nis gallech wneuthur Uffern a dynion fel hyn. Byddai'n Nefoedd lle y maent hwy, ac Uffern fyddai'r lle arall. Dywedir am y Mynnach da Basle, ysgymunwyd gan y Pab, iddo, wedi ei farwolaeth, gael ei anfon yn llaw angel i chwilio am le cymhwys i ddioddef yn Uffern, ond y fath oedd hyawdledd ac ewyllys dda y Mynnach fel y derbyniwyd ef yn wresog iawn gan yr angelion drwg. Daethai angelion da, hyd yn oed o

bell i'w weled, ac i aros gydag ef. Ceisiodd yr angel a'i harweiniai chwilio am bwll gwaeth iddo drigo ynddo, ond y fath oedd yspryd hael-frydig yr hen Fynnach fel y cawsai rywbeth da i'w ganmol yn mhob pwll ac yn mhob cwmni, fel y gwnaethai nefoedd ohonynt.

Wrth gwrs, gwyddom nad oes y fath leoedd a'r Nefoedd a'r Uffern draddodiadol. Cynnyrch ofn a chasineb ydyw Uffern. Gwnaeth ofn a chasineb yng nghyntaf Dduw ar eu delw eu hunain, a'r Duw yna wnaeth Uffern gyfatebol iddynt. Y foment y daeth y syniad o Dduw cariadlawn i'r meddwl aeth y syniad o Uffern allan. Nis gallent gyd-fodoli. Fel yr ysgrifenodd Tennyson, "Nis gellir synied am Dduw Cariad ac Uffern yng nghyd."

Gofynodd ei gweinidog i hen wraig o'r Alban ar ei gwely angau, "Beth ddywedech Janet, pe buasai Duw, ar ol gwneuthur cymaint drosoch, yn eich gadael i fynd i golledigaeth eto." "Gwnaed fel y mynno," oedd yr ateb dewr, "os y gwnaiff cyll Ef fwy na fi." Ni chollai hi ond ei hapusrwydd, ond collai Duw ei gymeriad. Pe buasai Duw yn anfon y wraig yna i Uffern, nid Duw fuasai mwyach, ond Diafol. Pan y meddylid am y Tragywyddol yn nhermau Amser a Lle, hawdd oedd meddwl am dano yn byw mewn lle o'r enw Nefoedd, ond pan y gwelwyd ei fod yn Anfeidrol gwelwyd hefyd gyda'r Salmydd ei fod "yn bresennol yn mhob man." "I ba le yr âf oddi-wrth dy yspryd? ac i ba le y ffoaf o'th wŷdd? Os dringaf i'r Nefoedd, yno yr wyt ti: os cyweiriaffy ngwely yn Uffern, wele di yno. Pe cymerwn adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafoedd y môr: yno hefyd y'm tywysai dy law, ac y'm daliai dy ddeheulaw." Os ydym wedi troi o'r neilldu yr hên syniadau am Nefoedd ac Uffern, beth sydd gennym ar ol o'r bywyd dyfodol? A ydym wedi ei waghau o'i holl arbenigrwydd? Dim o gwbl. Yn lle bywyd dyfodol o boenau a chospau, gwobrau a llawenydd, y mae gennym fywyd tragwyddol. Nis gwyddom ddim am y bywyd sydd ar ol y presennol, ond gwyddom rywbeth am fywyd tragwyddol. Yr ydym yn byw ynddo. Y mae ynom ac oddiamgylch ini. Y mae un rhan o hono y gwyddom rywbeth am dano —y rhan red trwy ein hymwybyddiaeth.

Gwelwn Nefau ac Uffernau o'n cylch—pechod, trueni, dioddefaint; daioni, dedwyddwch a hedd. Ond nis gwneir y Nefau a'r Uffernau hyn gan Dduw sydd un foment yn ddig, a'r foment arall yn foddlawn. Nyni sydd yn eu gwneuthur. Nid lleoedd yw Nefau ac Uffernau, ond cyflyrau yr enaid. Nid oes un dyn da yn Uffern; nid oes un dyn drwg yn y Nefoedd. Pa le bynag y mae'r dyn da, y mae yn y Nefoedd, a pha le bynag y mae'r dyn drwg y mae yn Uffern.

D. Cellan Evans,
*Rhydygwin.*

## Y GRAGEN.

Annedd hardd a drefnodd Ior—i'w rai bach
Ym mro bell y dyfnfôr;
Yn ei thrwsiad a'i thrysor
Gwelir mwyn firaglau'r môr.

*Penygarn.* Dewi Morgan.

## MYND I'R CWRDD.

Pan oeddwn i yn blentyn nid oedd son, mor bell ag yr wyf fi'n cofio, am fynd i'r capel, a phan sonid am yr eglwys, meddylid yn gyffredin am y fan lle'r oedd yr offeiriad yn gwasanaethu. Y Tŷ Cwrdd oedd man cyfarfod Anghydffurfwyr y dyddiau gynt. Yn yr hen ddyddiaduron nid oes son am Gapel Groes na Chapel y Fadfa. Llwyn Groes a Bwlch y Fadfa oedd yr hen enwau. Mynd *i'r Cwrdd* wnelem ni yn blant, er yn fynych, feallai, heb ddeall fawr o'r ystyr. Hen Dy Cwrdd y gelwir man cyfarfod ein pobl ni yn Aberdar. Felly hefyd y gelwid y man cyfarfod ar Gefn Coed y Cymer.

Beth ynte, feddyliwn ni wrth ddweyd ein bod yn mynd i'r Cwrdd? Ceisiwn y Rheswm, ceisiwn y Pam. Holwn ein hunain a oes genym reswm da—reswm teilwng. Ai i weld ac i gael ein gweld yr awn? Ai er dangos ein gwisgoedd newyddion a gweld gwisgoedd newyddion pobl eraill? Ai yn debyg i'r Iuddewon hyny gynt a droent Dŷ Dduw i fod yn ogof lladron?—er mwyn gwell masnach, mwy o elw bydol? Ai o ran arfer, o ran ffasiwn, er mwyn bod yn debyg i'r lluaws? Ai hyn ydyw'r cymhellydd mawr? ac os felly, onid gwael yw'r amcan, onid anheilwng yw'r cymhellydd? *Mynd i'r Cwrdd*! Gweddai ini holi'r ystyr, a'i bwyso'n bwyllog. Ai mynd i gwrdd a'r pregethwr mawr, cwrdd a'n cyfeillion, cwrdd a'r brodyr, gwrandaw'r bregeth, clywed y canu? Ceisiwn sylweddoli Paham ac I ba beth yr awn i'r cwrdd.

Yr oedd Edward Evan, mab Edward Evan, hen weinidog yr Hen Dy Cwrdd, yn Aberdar, yn arfer codi ei het a phlygu ei ben i'r pwlpud bob amser wrth fynd i fewn. Dichon ei fod yn wrthrych tosturi i rai, ond yr oedd yna ystyr ddwfn i'w weithred, gan ei fod yn ceisio troi yr hen ymadrodd yn ffaith yn ei brofiad ei hun – Nid oes yma onid *Ty i Dduw*, a dyma borth y nefoedd. Genesis 28 : 17.

Tŷ Dduw, Pabell y Cyfarfod—lle y trigai Duw gyda'i bobl. Teimlai'r Iuddew gynt ei fod yn hynny i gyd iddo ef. Ond y mae Duw yn hollbresennol—meddwch. Gwir ddigon. —"Os dringaf i'r nefoedd, yno yr wyt Ti; os cyweiriaf fy ngwely yn uffern, wele Di yno." Felly'r eglurai'r Psalmydd; ond er fod Duw yn llenwi pob man a'i bresenoldeb, a phob amser a'i barhad; er hynny i gyd nid yw Efe bob amser nac yn mhob man o fewn cyrraedd ymwybyddiaeth y dyn cyffredin. A oes rhyw fan lle nad yw Duw? ebe'r athraw wrth ei ddosbarth yn yr Ysgol Sul. Oes, ebe'r fechan pum mlwydd oed. Yn mha le, ebe'r athraw mewn syndod—"Yn holl feddyliau y dyn drwg," ebe'r fechan ddoeth, mewn atebiad.

Ni all un llygad cnawd ei weled,
Fyth edrych arno Ef a byw;
Na deall angel fyth amgyffred
Bodoldeb yr anfeidrol Dduw;
Er hyn i gyd, yn mhob cydwybod
Fo'n ufudd dan ei wyllys Ef,
Hawdd cael ei deimlo a'i adnabod
Yn brawf ar wynfyd mawr y nef.

Un peth yw cael Duw gyda dyn, peth arall yw cael dyn yn ymwybodol gyda Duw. Cael y dyn i'r cywair iawn yw'r peth anhawdd—y gwair y gall ei dderbyn. Ebe Gwilym Marles—

Fe ganai bachgen bychan
Wrth grwydro 'mhlith y coed,
Ei ganig fach i'r Hydref
Pan onid dengmlwydd oed;
Anadl hen ysprydoliaeth,
Na phaid o oes i oes,
Ysgubai dros ei delyn
A'i thannau a ddeffroes.

Mae swn a dwndwr masnach y byd, a chlonc ei forthwylion a'i beiriannau am chwe' dydd o'r wythnos yn peryglu'r adnoddau hynny y rhoddodd Rhagluniaeth y nefoedd ini, er ein galluogi i deimlo anadl yr hen ysprydoliaeth, ac i glywed tinc melus telynau'r nefoedd. Onid yw yn drist meddwl am y miloedd hynny a esgeulusant gyflwyno un dydd allan o saith i gadw tân crefydd yn fyw ar aelwyd yr enaid, ac yn cloddio iddynt eu bunain bydewau toredig y rhai ni roddant un dafn o gysur mewn awr o drallod? O ynfydrwydd! O ffolineb!

Nid felly y gwnai'r Iuddew doeth gynt. Yr oedd ganddo ef ei ddau lwybr tuag at feithrin y bywyd ysprydol. 'Bore, a hwyr, a chanol dydd, ymneillduai i'w ystafell ddirgel, ac wedi cau ei ddrws, ceisiai gymundeb a'r nefoedd; ac ar y Sabbath nid esgeulusai ei gydgynulliad. "Llawenychais," meddai, "pan ddywedent wrthyf, awn i dŷ yr Arglwydd." Hyd yn oed ar ei daith o'r Aifft i Ganaan, yr oedd yn rhaid i'r Iuddew wrth holl gyfleusderau crefydd. Mynodd ei Babell Cyfarfod symudol, ac adeiladodd hi ar gynllun dwyfol. Ac ar ei daith drwy'r anialwch, fe'i tynai i lawr bob bore, a gosodai hi i fyny drachefn bob hwyr —*One day's march nearer home* – Bob nôs yn nes i dre'. Ac wedi cyrraedd Canaan, a dyfod i Jerusalem, a chael pethau i drefn, a sefydlogi'r deyrnas, meddienni'r Dafydd gan awydd i wneuthur rhywbeth teilwng, rhywbeth ardderchog! Ac i'w feddwl ef nid oedd dim mor deilwng, dim mor ardderchog ag adeiladu Tŷ i Dduw. Y mae Nathan y proffwyd yn canmol amcan Dafydd; ond nid yw yn cymeradwyo fod Dafydd yn cael adeiladu y Tŷ. Yr oedd Dafydd wedi bod yn ddyn rhyfel. Yr oedd ei ddwylaw yn rhuddiog gan waed ei gyd-ddynion, ac yr oedd felly yn anghymwys i adeiladu tŷ i'r Arglwydd gyfaneddu ynddo. Eto Dafydd bia'r cynllun. Efe oedd awdwr y ddelfryd a'r defnydd; ei feddwl ef oedd wedi mynd i fewn i'r oll. Efe oedd y pen saer celfydd a barotodd y portread, os Solomon gafodd yr anrhydedd o'i adeiladu. Ac yn sicr, ni welwyd erioed o'r blaen ddarn o adeiladaeth mwy gogoneddus. Fe ellir darllen y darlun yn Exodus 25. Ceisier ei ddychmygu oll. Ebe'r dysgyblion wrth Iesu mewn syndod: "Athraw, edrych pa ryw feini, a pha fath adeiladau sydd yma!" Y meini mawrion, na wyddis yn iawn o ba le y daethant, na pha beth oedd offerynau eu trosglwyddiad. Mae rhai o'r meini yn mesur dros ddeg troedfedd ar hugain o hyd, ac yn pwyso tynelli; ac oll wedi eu cwbl naddu a'u trin yn barod cyn eu trosglwyddo o'r cwarel. "A'r tŷ," meddai'r gair, "pan adeiladwyd ef, a adeiladwyd o gerryg wedi eu cwbl naddu cyn eu dwyn yno, fel na chlybuwyd na morthwylion na bwyill, nac un offeryn haiarn yn y tŷ wrth ei adeiladu." Yn ddistaw a didwrw aeth y gwaith oll i ben. Onid felly hefyd y gwelwn ni fod Rhagluniaeth yn fynych yn gweithio? Pan y mae rhyfel wedi taenu dinystr a difrod dros wyneb y wlad, canfyddwn fod Rhagluniaeth yn Natur ar unwaith yn cychwyn ar ei gwaith ac yn gwau cwrlid o liwiau prydferthaf y Gwanwyn i geisio cuddio olion y galanas. Pan oedd y gwr ieuanc o Nazareth yn gweithio yn ddistaw wrth fainc y saer gyda'i dad, nid oedd yno neb ar y pryd yn breuddwydio ei fod yn aeddfedu egwyddorion a barent i Rufain gyda'i hymerawdwyr balch ostwng pen. Pan oedd brenhinoedd beilchion y bymthegfed ganrif a'u holl fryd ar ddarostwng teyrnasoedd, ychydig feddylient fod yna un wedi ei eni cyn diwedd y ganrif, a'i enw yn Martin Luther, fyddai'n meddu gallu mwy na'r un o honynt. Ni wyddai Johann Guttenberg fawr am y nerth a'r gallu newydd ddygodd ef i fodolaeth, pan ddyfeisiodd y peiriant argraffu. Ni wyddai Benjamin Franklin, ac ni ŵyr neb hyd heddyw, pa bethau mawrion sydd yn gynwysedig yn y darganfyddiad a wnaed ganddo ef, pan dynnodd yr hylif trydanol gynt i lawr o'r cwmwl dros linyn ei farcutan papur.

S.N S.

*(Anorffenedig.)*

## CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas yng Nghiliau Aeron, dyddiau Mercher ac Iau, Awst 1 a 2, 1917. Yr oedd yn bresennol Mri. Josiah R. Jones (llywydd); D. Martin Jones, Y.H. (trysorydd); y Parchn. John Davies, R. C. Jones, David Evans, T. Arthur Thomas, Lewis Williams, E. O. Jenkins, T. O. Williams, B.A., D. G. Rees, E. R. Dennis, J. Carrara Davies, T. Lloyd Jones (Liverpool), E. Gwilym Evans (Dukinfield), James Jenkins (Birkenhead), D. Cellan Evans, Miss E. Rosalind Lee (cynrychiolydd y British & Foreign Unitarian Association), ynghyd a chynrychiolaeth luosog o holl eglwysi Undodaidd Ceredigion. Pregethwyd nos Fercher, yn Rhydygwin, gan y Parchn. David Evans a D. G. Rees; yng Nghiliau, gan y Parchn. Lewis Williams a D. G. Rees. Dydd Iau, pregethwyd yn y prydnawn gan y Parchn. E. Gwilym Evans ac E. R. Dennis, a chafwyd anerchiad gan Miss Lee, Birmingham. Tra yn cyflwyno dymuniadau da y Gymdeithas gynrychiolai, sylwodd ar y gwaith mawr ddylasai gael ei gyflawni gan fenywod yn ein eglwysi. Bydd y galwadau yn fwy nag erioed, a'r cyfleusderau yn lluosocach i wasanaeth ar ol y rhyfel. Annogai y menywod yn arbennig i fanteisio ar y cyfleusderau hynny.

Yng nghyfarfod y prydnawn dadorchuddiwyd Mur-Goffa osodwyd i fyny gan y gynulleidfa er cof am y diweddar Barch. E. Ceredig Jones, M.A. Cafwyd anerchiadau gan y Parchn. John Davies, a T. Lloyd Jones, ynghyd a'r Gweinidog.

Hwyr dydd Iau, pregethwyd eto gan y Parchn. T. O. Williams a D. G. Rees. Cafwyd cyfarfodydd llwyddiannus iawn ymhob ystyr. Bu'r tywydd yn ddymunol, a chafwyd cynulliadau lluosog o'r dechreu hyd y diwedd. Yr oedd yn dda gennym weled yn bresennol dri o weinidogion yr Annibynwyr, Ficer y plwyf, a Gweinidog y Wesleyaid. Gwnaeth eglwys fechan y Ciliau ei rhan yn ardderchog i roesawu ac i borthi y "dieithriaid o fewn y pyrth." Dangoswyd beth ellir wneud gan ychydig os bydd gan y bobl galon i weithio. Diolchwyd yn gynnes iddynt am eu croeso a'u caredigrwydd. Da oedd gennym hefyd weled eu Gweinidog yn bresennol yng ngwisg swyddogol y "Y.M.C.A." Y mae erbyn hyn yn swn y magnelau, ac ambell dâu-belen yn syrthio yn beryglus o agos iddo. Y mae yng ngofal "*Hut*" bellaf yn mlaen i'r linell danio, yn agos i Lens. Gobeithio fod "Sion Cwsg" ag yntau yn gyfeillion erbyn hyn, gan ei fod yn achwyn na fedr gael hun i'w amrantau, gan swn ofnadwy y magnelau.

### Y PWYLLGOR.

Cynhaliwyd pwyllgor blynyddol y gymdeithas yng nghapel Ciliau, bore Iau, Awst 2, 1917, am 10 o'r gloch. Y llywydd, Mr. Josiah Jones, Garthowen, yn y gadair. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cwrdd diweddaf. Yn absenoldeb y trysorydd gwnaeth yr ysgrifennydd apêl am ragor o gydweithrediad ar ran swyddogion yr eglwysi ac eraill fel y gellid cael y casgliadau a'r tanysgrifiadau yn fwy amserol i law. Darllennodd yr ysgrifennydd ei adroddiad yn yr hwn y gwnaeth gyfeiriad (1) at ein bechgyn sydd gyda'r Fyddin a'r Llynges, ac annogodd ar fod cyfrif cywir yn cael ei wneud o honynt. (2) Marwolaeth Mr. John Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul, cyndrysorydd y gymdeithas. (3) Llongyfarchiadau i'r trysorydd presennol ar ei ddyrchafiad i'r Fainc Ynadol. (4) Cynhaliad rhan o gyfarfodydd Hydrefol Cymdeithas Undodaidd

Brydeinig a Thramor yn Llwynrhydowen a Chapelygroes. (5) Na chynhaliwyd cyfarfodydd y Pasc oherwydd amgylchiadau cysylltiedig a'r rhyfel. (6) Fod y trysorydd a'r ysgrifennydd wedi budd-soddi £131 15s. oc. o Drysorfa y Llyfr Emynau yn y *War Savings Certificates*. (7) Gwnaeth gyfeiriad hefyd at fwriad y Parch. D. Cellan Evans i fyned allan i Ffrainc i wasanaethu gyda'r Y.M.C.A. Pasiwyd y *grants* canlynol—Capelycwm, £5; Caeronen, £2, ar yr amodau arferol. I Drysorfa y Llyfr Emynau, £20. Mewn perthynas i Penrhiw a Phanteg dewiswyd y llywydd, yr ysgrifennydd, a'r Parch. E. O. Jenkins i dynnu allan gynllun fel ag i uno y ddau achos, ac i wneud adroddiad i'r Pwyllgor Gweithiol gyda gallu i weithredu. Mewn perthynas i'r Llyfr Emynau gofynwyd i'r ysgrifennydd ymohebu ar y pwnc â golygydd yr Emynau, a fyddai mor garedig a rhoddi ei gasgliad at wasanaeth y gymdeithas, er parotoi y llyfr emynau yn ddioed. Mewn perthynas i ymweliad Dr. Carpenter ag eglwysi Sir Aberteifi, gadawyd y mater yn llaw y Pwyllgor Gweithiol ynghyd a'r gweinidogion. Gadawyd hefyd yn llaw yr un pwyllgor y mater o gael *Block* newydd i'r YMOFYNYDD. Penderfynwyd rhoddi pob cefnogaeth i Bwyllgor Cerddorol Undodaidd Ceredigion, i ddwyn allan raglen helaethach nag arfer eleni, swm y draul ariannol i'w adael yn llaw y Pwyllgor Gweithiol. Lle cynhaliad y cwrdd nesaf, &c., i'w adael i'r ysgrifennydd. Dewiswyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn nesaf—llywydd: y Parch. T. Arthur Thomas; is-lywydd: Mr. David Davies, Gellionen; trysorydd: Mr. D. Martin Jones; ysgrifennydd: y Parch. E. O. Jenkins; archwilwyr: Mri. J. O. James, a J. W. Davies, Llandyssul. Estynnodd y llywydd groesaw cynnes i Miss E. Rosalind, o Birmingham, yr hon gynrychiolai y British and Foreign Unitarian Association. Gwnaeth hithau gydnabod y croesaw mewn araeth bwrpasol. Pasiwyd fod y diolchgarwch gwresocaf yn cael ei gyflwyno i Mr. Josiah Jones am lywyddu mor ddeheuig yn ystod y ddwy flynedd.

Pasiwyd y penderfyniadau canlynol, yn cael ei gynnyg gan y Parch. T. Lloyd Jones, ac yn cael ei eilio gan y Parch. D. G. Rees—"Fod y cyfarfod blynyddol hwn o Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, yn ymwybodol o'r angenrheidrwydd i ochelyd pob gwastraff, ac o ddefnyddio yn llawn holl adnoddau materol a moesol y genedl, yr ydym yn argyhoeddedig mai yr yfed mawr ar ddiodydd meddwol y dyddiau hyn ydyw y gelyn cenedlaethol mwyaf peryglus i iechyd, cynhildeb a diogelwch y wlad; yng ngwyneb hyn yr ydym yn annog y Llywodraeth i wahardd gwneuthur a gwerthu diodydd meddwol yn ystod y rhyfel, ac am chwe' mis ar ol hynny; ac yna i roddi yr holl gwestiwn i'w benderfynnu gan y bobl eu hunain yn eu gwahanol ardaloedd."

Pasiwyd hefyd ar gynygiad yr ysgrifennydd ac eiliad y Parch. E. O. Jenkins—"Ein bod yn llongyfarch amaethwyr canolbarth Ceredigion ar y ffaith ganmoladwy eu bod wedi casglu ynghyd eu cynhauaf gwair eleni, heb roddi diodydd meddwol i'w gweithwyr; ac ein bod yn dymuno arnynt i lynu wrth y rheol hon eto yn y dyfodol; dymunwn ym mhellach apelio at bawb fwriadant wneud arwerthiadau na byddo iddynt rannu diodydd meddwol yn y cyfryw, fel y byddo i gymdeithas fod yn lannach a phurach mewn canlyniad."

Pasiwyd hefyd y penderfyniad canlynol, ar gynygiad Mr. Evan Hughes, Dihewyd, ac eiliad yr ysgrifennydd—"Fod y cyfarfod blynyddol hwn gynhelir ar derfyn tair blynedd o ryfel yn dymuno datgan ein cefnogaeth gyflawn o'r Llywodraeth ymhob modd er dwyn y rhyfel i derfyniad llwyddiannus ac anrhydeddus, ar hyd y llinellau amlygwyd gan Mr. Asquith a Mr. Bonar Law yn Nhy y Cyffredin, ar y 26ain o Orffennaf diweddaf.

T. ARTHUR THOMAS, *Ysg.*

## DEIGRYN HIRAETH

*Ar ol fy Anwyl Briod, sef Hannah Hopkin, Cathelyd,*
*Yr hon fu farw Medi 1af, 1913, yn 64 mlwydd oed ;*
*Ac a gladdwyd yn Gellionen yr Iau canlynol.*

---

I.

O ! ddeigryn bychan, mewnol, cudd,
Mae hiraeth calon lon'd ei gôl,
A choda hen adgofion fyrdd
Am un na ddychwel byth yn ol ;
'Rwy'n gwel'd ei gwedd o'm blaen yn awr
Fel byw ysblander tlysni'r wawr.

II.

Mae'r oriau 'nawr i wel'd yn hir
Heb neb i siarad geiriau mwyn,
Beth bena'r drafferth yn y byd
'Roedd hi a'i bryd ar gydymddwyn ;
Gan lanw'i chylch ar hyd y daith,
Yr hyn a allodd hi a'i gwnaeth.

III.

Diddichell oedd, a chalon bur,
A charedigrwydd lon'd ei chol,
Mewn gwneuthur da, ni waeth i bwy,
Ni welwyd HANNAH 'rioed ar ol ;
Wrth feddwl na ddychwela mwy
Mae nghalon bron a thorri'n ddwy.

IV.

Mor unig wyf, O ! deimlad blin,
Mae'n rhoi i'm mynwes ddirfawr glwy,
Ni fydd tra fyddaf yma'n byw
CATHELYD fel CATHELYD mwy ;
Mi gollais hen gariadlawn ffrynd,
Mae'r oriau dedwydd wedi myn'd.

V.

Mae'r dagrau dreigla dros fy ngrudd
Fel rhyw lân berlau coffa byw,
Ond eto'i gyd dyledswydd dyn
Yw 'mostwng i drefniadau Duw ;
Beth ydwyf well o wylo'n ffol
Oblegid rhaid myn'd ar ei hol.

*Cathelyd.* LEWIS HOPKIN.

## PRIODAS.

AWST 4, yn Llwynrhydowen, Mr. John Daniel Jones, unig fab Griffith a Margaret Jones, Brynllefrith, Cwrtnewydd, a Miss Jane Davies, Penrallt, Pontshan, merch John a Jane Davies, Criborfawr. Parchn. E. O. Jenkins a Lewis Williams, yn gwasanaethu.

## MARWGOFION.

AWST 2, cludwyd gweddillion marwol y diweddar Mr. David Watkins, Timber Merchant, Penygraig, Canol Rhondda, i'w orphwysfa olaf. Claddwyd yng Nghladdfa Gyhoeddus Llethrddu, Porth. Yn absenoldeb anocheladwy Mr. Dennis, hen weinidog Clydach Vale, aeth Gweinidog Wesleyaidd Penygraig, yn garedig iawn, drwy y gwasanaeth yn y ty. Gwelwyd yn yr angladd lawer o hen gyfeillion Wesleyaidd Mr. Watkins, ac amryw o'r rhai y bu yn masnachu a hwynt yn ystod y cyfnod hirfaith o haner can mlynedd y bu mewn busnes yn Mhenygraig, yn ogystal a rhai gweithwyr fu yn ei wasanaeth am rai degau o flynyddau. Math o berarogl, onide, mewn oes ag y mae cymaint o ddwrdio, a chodi trwyn ar yr *employer of labour*. Trist iawn fydd y newydd o farwolaeth Mr. Watkins i lawer o hen gefnogwyr yr achos yn Clydach Vale sydd heddyw yn herwydd amgylchiadau croes, ar wasgar. Am flynyddau lawer gwelsid ef, yng nghwmpeini Mr. Jones, Butter Merchant, Tonypandy, yn dringo y rhiw serth i'r capel bach, ac nid ydym yn arfer gormodiaith wrth ddweyd na fu i'r achos yno gefnogwr mwy pybyr ac aiddgar. Nid yn aml y byddai Mr. Watkins yn siarad, ond yr oedd ei roddion bob amser yn dywysogaidd at holl ofynion yr achos. Daeth yr ymadawedig drosodd at yr Undodiaid o'r gorlan Wesleyaidd, ac ni fu *convert* erioed yn fwy cydwybodol. Cafodd yr ysgrifenydd lawer ymgom ddyddorol ag ef ar y mater, ond ni chlywais ef erioed yn dweyd un gair angharedig am y Wesleyaid. Daliai yn dŷn er hyny i gredu nad oedd yn ddichonadwy i unrhyw genadwri i feddu ar fwy o gyfaddasder i gyfarfod ag holl anghenion dyn fel bod rhesymol, moesol ac ysbrydol. Crist yn hyfforddiant diwyro i ddyn ar daith bywyd, a'r Tad goreu a'i freichiau ar led i dderbyn yr edifeiriol yn ol. Ar lan y bedd awd drwy wasanaeth claddu yr eglwys gan offeiriad Penygraig. Bydded i Dad yr amddifad i fod yn seren ddisglaer i'r teulu yn nôs dywell eu trallod a'u galar. Ffarwel, gyfaill mwyn, am ychydig. Er priddelli o honoch yn y dyffryn, bydd yr adgof am danoch yn felus, a'r goffadwriaeth yn hyfryd a dymunol.

AWST 9, yn 24ain oed, bu farw Thomas Jacob, anwyl fab Evan a Margaret Thomas, Bolahaul, ger Llanbedr. Bu yn nychu amryw flynyddau; bu am beth amser dan driniaeth feddygol yn Iechydfa Alltymynydd, a daeth gryn dipyn yn well ar ol dychwelyd, fel y mynwesid gobaith cryf am adferiad iddo. Nid

hir fu, fodd bynnag, cyn arddangos arwyddion dirywiad drachefn ; a graddol weithiodd ei afiechyd dan seiliau ei fodolaeth o hynny allan, a dygodd ef ymaith ar y dydd a enwyd er galar dwys i dad a mam, brawd a chwaer, a chylch eang o berthynasau. Bachgen serchog, llon, gwyneb-agored, hardd ei rodiad, pur ei foes, na fynwesai ddymuniad drwg at neb, oedd Tom, ac ar gyfrif y rhinweddau hyn yr oedd wedi ennill iddo ei hun gylch eang o gyfeillion yng nghymdogaeth Llanbedr. Y mae'r meddwl am hyn yn gysur gwerthfawr i'w rieni a'i berthynasau, a thuedda i liniaru'r hiraeth achoswyd iddynt gan ei farwolaeth gynnar. Yr oedd yn aelod o gynnulleidfa Capelygroes, ac yr oedd yn ei fynwes deimlad gwres-og tuag at yr achos yno. Dydd Mawrth canlynol daeth tyrfa anarfer-ol o luosog ynghyd i hebrwng ei weddillion i fynwent Capelygroes. Pregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans, y gweinidog ; a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. E. Evans, Soar, ac L. Williams, Alltyplaca. Nerth a gaffo'r teulu i ymdawelu, a pheidio galaru fel rhai heb obaith.

AWST 17, yng Nghapel Panty-defaid, cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa-dwriaethol i'r diweddar Private David Davies, 3rd Welsh Regiment, mab hynaf Mr. James Davies, Blaen-glowonfach, Talgarreg, ac ŵyr i'r diweddar Mr. James Davies, Cefn-gwallter, a'r diweddar Mr. David Davies, Gwardafolog. Ymunodd y brawd ieuangc a'r fyddin yn gynnar, a syrthiodd ar faes y frwydr, yn y Somme, Ffrainc, Gorffennaf 7, 1916, ac efe yn 24ain mlwydd oed. Oddiar y dydd hwnnw "ar goll" ydoedd y newydd gaed oddiwrth yr awdurdod-au am dano, a mynwesid y gobaith ei fod o bosibl yn garcharor, ond yn fyw. Ond trodd y gobaith hwn yn siomiant i'r teulu, gan ei fod wedi cwympo yn y frwydr ofnadwy honno ar lannau y Somme. O barch i goffadwriaeth i un osododd ei fywyd i lawr ar allor aberth, ac o gydym-deimlad a'r teulu yn eu profedigaeth, daeth cynnulleidfa luosog ynghyd. Arweinid y gwasanaeth gan y gwein-idog ; darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. E. O. Jenkins ; pregethwyd gan y Parch. Evan Davies, (M.C.), Capel Drindod, a gorffennwyd y gwasanaeth gan y Parch. E. O. Jones, Rheithor Llangynllo. Nodd-ed y nef fyddo dros y teulu yn eu profedigaeth chwerw.

## MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Wele yr Ysgolion sydd wedi anfon casgl-iadau :— Rhydygwin, 12s.; Panty-defaid, 10s. 9½c. ; Capelygroes, 8s. 6c.; H.D.C. Cefncoed, 7s. 6c. ; Graig, Trebanos, 7s. 4c.; Llwyn, 7s.; Capelybryn, 6s. 4½c.; Brondeifi, 5s.; Caeronen, 5s. ; Alltyblacca, 5s. ; H.D.C. Aberdar, 5s.; Bwlch, 5s.; Cwm, 5s. Gwelir fod rhai Ysgolion heb anfon casgliad. Hyderwn y gwnant.

PWYLLGOR YR YSGOL SUL.—Cynhaliwyd yn Nghiliau, Awst 2. Llywydd y Gymdeithas, Josiah R. Jones, Ysw., Garthowen, yn y gadair. Rhoddodd yr Ysgrifenydd adrodd-iad o'r hyn oedd wedi cael ei wneyd, ond methodd gyflwyno y fantolen am y flwyddyn oblegid fod rhai o'r

Ysgolion heb anfon eu casgliad blynyddol. Etholwyd yr un swyddogion am y flwyddyn ddyfodol. Appwyntiwyd Mr. J. R. Thomas, C.M., Pontshaen, i arholi Ysgolion Sir Aberteifi, a'r Parch. E. T. Evans, Aberdar, i arholi Ysgolion Morganwg. Pasiwyd nad oedd Gwersi i gael eu hargraffu eleni, ond fod pennodau yn cynwys hanes un o fawrion y Beibl i fod yn Faes Llafur. Buwyd yn ystyried y priodoldeb o ddwyn llyfr allan i'r plant ieuainc i ddysgu darllen Cymraeg, ac y mae y mater hwn i gael ystyriaeth bellach gan bwyllgor a benodwyd.

CRIBYN.—Dydd Llun, yr 20fed o Awst, rhoddwyd gwledd o dê i blant Ysgol Sul y lle uchod gan Mrs. Morgan, Glanmydr. Daeth nifer liosog yng nghyd yng nghwrs y prydnawn i fwynhau o'r danteithion, nid yn unig o fobl a phlant y gynulleidfa, ond hefyd o fobl a phlant y gymydogaeth yn gyffredinol. Cawd hin ffafriol, yr hyn ychwanegodd at bleser y cynulliad. Cyn terfynu, cynhaliwyd cyfarfod byr yn y capel, dan lywyddiaeth ein hen gyfaill, Mr. James Evans, Cribyn Farm, yr hwn sydd wedi cyrhaedd yr 88fed flwyddyn o oedran, a'r hwn sydd yn parhau yn gryf o ran corff a meddwl, ac yn mynychu'r gwasanaeth bob Sul. Hir y parhao felly. Yn ystod y cyfarfod, hefyd, pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad â'r bechgyn o'r gynulleidfa ydynt yn y rhyfel, ar awgrymiad Mrs. Morgan, gan ddymuno terfyn buan i'r rhyfel, a'u dychweliad hwythau i'w hen gymydogaeth. Diolchwyd yn gynes i Mrs. Morgan am ei haelioni. Hefyd, rhanwyd y *certificates* i'r plant. Darllenodd Mr. Griffith, yr ysgolfeistr, nifer o bennillion (o waith cartref) wedi eu cyfansoddi ar gyfer yr amgylchiad i ddiolch i Mrs. Morgan am y wledd, ac i'w llongyfarch ar yr amgylchiad pwysig yn ei hanes a ddethlid y dydd hwnnw. Terfynwyd drwy ganu "Dan Dy fendith wrth ymadael."

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.—Cynhaliwyd tê blynyddol yr Ysgol Sul ar y 6fed o Awst, pan y daeth lluaws o blant a phobl mewn oed ynghyd i fwynhau y danteithion oedd wedi eu parotoi. Rhoddwyd y wledd eleni gan y boneddwr D. R. Llewelyn, Fairfield, a thrwy garedigrwydd Mr. Edward Howells, o'r Maesgwyn, a'r teulu cawsom yr hyfrydwch o gynnal y tê yn yr awyr agored, ar un o'r caeau perthynol i Maesgwyn, ac er fod yr hin yn ansicr mwynhaodd pawb eu hunain i'r eithaf, yn arbennig y plant. Bu y rhai mewn oed ar eu goreu yn dyfeisio chwareuon i'w dyddori, ag yn eu plith nid oedd neb yn fwy prysur wrthi na'n parchus weinidog. Yr oedd yn bleser mawr i ni gael yn ein plith eleni eto y Parch. R. J. Jones. Pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch gwresog i Mr. Llewelyn a Mr. Howells am eu haelioni a'u caredigrwydd. Aeth pawb adref a chân ddiolchgar yn eu calonnau i'r ddau foneddwr hyn am i ni gael cyfleusdra i fwynhau ein hunain allan o sŵn a dwndwr terfysglyd y dyddiau presenol.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Yng Nghapel y Graig, nos Sul, Mehefin 24, cynhaliodd yr eglwys uchod gyfarfod o adrodd a chanu, i rai mewn oed, yn benaf. Bernid na chawd cystal cwrdd er ys llawer dydd. Yr oedd testynau y caneuon a'r adroddiadau yn hapus bob un; a'r gweithiad allan yn y gân a'r adroddiad yn arddangosiad o lawer o lafur. Tarawyd tant hyfryd a dymunol. a theimlwyd fod pwysau yr yspryd anweledig yn ymwneud a phob un yn bersonol, nes y teimlem mai dyma un o'r ffyrdd amlwg sydd yn arwain i mewn i faes y grefydd Gristnogol. Diolch am gael bod yn y cwrdd. Arweiniwyd gan y Parch. D. G. Rees, a chyfeiliwyd gan Mr. J Emlyn Hopkin, Brynderw, yr hwn sydd gartref ar ei wyliau o'r Brifysgol yn Aberystwyth.——Yn Ysgoldy Gosen, nos Wener, Gorff. 27, cynhaliwyd cyfarfod croesawu o faes y frwydr, wedi ei anafu, Mr. Willie Lewis, Tynycae, Alltwen. Bu efe yn yr Ysbytty am ysbaid, ac y mae yn

parhau i wella yn ddymunol. Cyflwynwyd iddo y sypyn arferol o arian, a diolchodd yntau am y cydymdeimlad. Cadeiriwyd gan Mr. John John, Cefneithrim, a chyfeiliwyd gan Mr. J. Emlyn Hopkin, Brynderw.

CWRDD CROESAWU.--Nos Fawrth, Awst 21, yn yr Ysgoldy Genedlaethol, cynhaliwyd cyfarfod brwdfrydig o drefwyr Llandyssul i roesawu yn ol i'w gartref am yspaid fer, Lance-Corporal Evan Lloyd, M.M., Graig Gwyon, Panteg yn awr. Cadeiriwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, a chafwyd annerchiadau gwresog gan amryw, yr oll yn dwyn tystiolaeth i wroldeb y gwron wnaeth ennill y Fedal Filwrol ar faes y frwydr. Bydd raid iddo gario olion y frwydr ofnadwy mwy, gan iddo golli ei lygad yn yr ysgarmes. Anrhegwyd ef â *cheque* dros y gynulleidfa gan Mrs. James, Brynhyfryd, yn gydnabyddiaeth fechan o'n gwerthfawrogiad o'i wasanaeth mawr drosom. Yr oedd y cwrdd yn un o'r rhai mwyaf lliosog a brwdfrydig o'r natur hwn a gawsom yma. Y mae Mr. Lloyd yn aelod o Gapel y Graig, ac iddo barch cyffredinol gan ei gydnabod.

DIRGELWCH CYMDEITHAS.—*Rho i mi dy law.* Nid wyf yn golygu iti fod o'r un opiniwn a mi; nid oes angen iti, nid wyf yn ei ddisgwyl na'i ddymuno, ac nid wyf yn golygu y byddaf fi o'r un opiniwn a thi. Nis gallaf; nid yw yn dibynu ar fy newisiad. Nis gallaf feddwl yn fwy nag y gallaf weld neu glywed fel yr wyf yn ewyllysio. Cadw di dy opiniwn, gwnaf finnau'r un peth. Nid oes angen iti geisio dod drosodd ataf fi, nac i fy nwyn i atat ti. Nid wyf yn dymuno iti ddadlu rhyw bwnc, nac i wrandaw na llefaru un gair am danynt. *Yn unig rho i mi dy law.* Nid wyf yn golygu iti gymeryd fy ffordd i o addoli, ac ni wnaf finnau gymeryd dy ffordd di. Nid oes genyf un dymuniad i ddadleu a thi am foment. Gad i bob peth felly sefyll ar y naill du, nad iddynt fyth ddod i'r golwg. Os dy galon di yw fy nghalon i, os ceri Dduw, os ceri bawb ddynion, nid wyf yn gofyn rhagor. *Rho i mi dy law.*—JOHN WESLEY.

## EMYN Y MORWR.

Llywydd mawr y gwynt a'r moroedd,
O tawela'r storom gerth;
Gelli Di, ar ddim ond amnaid
Ddofi'r dòn â'th ddwyfol nerth;
Clyw drueiniaid di-amddiffyn!
Ar eu t'wyllwch torred gwawr!
Dywed air, O Dduw trugarog!
Fel y bo tawelwch mawr!

Beth yw'r corwynt? Dim ond cennad
Ufudd iti, Frenin nef;
Beth yw'r cefnfor? Dim ond defnyn
Ar Dy law gynhaliol gref.
Yspryd pur, sibryda gysur
Wrth Dy blant ar dywyll awr!
I'r ystorm, gorchymyn osteg
Fel y bo tawelwch mawr!

T. J. PRITCHARD,
(*Glan Dyfi.*

---

## TRI BEDD-ARGRAFF.

At liaws tawel, is tywod, aeth hon
O'i thyner wyryfdod;
I daith y bedd, doeth yw bod
Yn y bore yn barod.

Mwyn ŵr a fu; ni chai ddichell—o
Ei fynwes ef babell; [fewn
Un oedd ddilynodd linell
Euraidd foes i'r haddef well.

Cwsg tyner dad a mam yma--deuoedd
Diwyd drwy eu gyrfa;
Iôn wylied eu hun ola'
Hyd wŷs dydd y "Da, weis, da!"

CLEDLYN.

---

*J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.*

NEW SERIES OF

# Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Volumes now ready.

**Religion as affected by Modern Science and Philosophy.** By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

**Religion in Social and National Life.** By H. D. Roberts.

**The New Testament in the Light of Modern Knowledge.** By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

**Communion of Man with God.** By F. Nicol Cross, M.A.

**Jesus and Christianity in the Twentieth Century.** By Alfred Hall, M.A.

**The Revelation of God in Nature and Man.** By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

**The Divine Element in Art and Literature.** By W. L. Schroeder, M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C.

# Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

Fruit Trees, Roses and Shrubs.

## HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

**Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.**

Telegrams—Coysh, Carmarthen

## CHANNING HOUSE.

**High School for Girls and Unitarian Boarding School**

HIGHGATE, LONDON, N.

*Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),*

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

# Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

**PURE WELSH OATMEAL.**

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody

*Order to-day from the Manufacturers—*

**T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL**

# The London City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £22,947,804. Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.

Reserve Fund .. £4,000,000.

## LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1916.

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| To Capital Paid up, viz. :— | | | |
| £2 10s. od. per Share on 1,912,317 Shares of £12 each | 4,780,792 | 10 | 0 |
| „ Reserve Fund ... ... | 4,000,000 | 0 | 0 |
| „ Dividend payable on 1st February, 1917 ... ... ... | 322,703 | 9 | 11 |
| „ Balance of Profit and Loss Account | 243,538 | 5 | 10 |
| | 9,347,034 | 5 | 9 |
| Current, Deposit and other Accounts | 174,620,724 | 17 | 9 |
| „ Acceptances on account of Customers | 7,220,780 | 12 | 2 |
| | £191,188,539 | 15 | 8 |

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| By Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England ... .. | 47,973,686 | 4 | 4 |
| „ Money at Call and at Short Notice and Stock Exchange Loans ... | 8,844,377 | 19 | 10 |
| „ Investments :— | | | |
| War Loans, at cost (of which £1,490,000 is lodged for Public and other Accounts) | 33,399,534 | 13 | 6 |
| Stocks Guaranteed by the British Government, &c. ... ... | 326,406 | 10 | 0 |
| British Railway Debenture and Preference Stocks, Corporation Stocks | 1,924,813 | 0 | 4 |
| Colonial and Foreign Government Stocks and Bonds ... ... | 751,520 | 12 | 11 |
| Sundry Investments ... ... | 788,021 | 0 | 10 |
| „ Bills of Exchange ... ... | 23,336,817 | 0 | 9 |
| | 117,345,177 | 2 | 6 |
| „ Advances on Current Accounts, &c... | 63,868,856 | 17 | 4 |
| „ Liabilities of Customers for Acceptances as per contra ... ... | 7,220,780 | 12 | 2 |
| „ Bank Premises, at Head Office and Branches ... ... ... | 2,753,725 | 3 | 8 |
| | £191,188,539 | 15 | 8 |